INSHOU20

Ymchwilio i achosion a nodwyd o dorri cytundebau deiliadaeth

Trosolwg

Mae'r safon hon yn cwmpasu'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan unigolion sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion a nodwyd o dorri cytundebau deiliadaeth. Yng nghyd-destun y safon hon gallai cytundeb deiliadaeth fod yn gytundeb tenantiaeth, trwydded neu brydleswr*.

*Nid yw cytundebau lesddeiliaid yn berthnasol yn yr Alban.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dilyn gweithdrefnau gweithredol sydd ar waith i leihau nifer yr achosion o dorri cytundebau deiliadaeth a'u hatal rhag digwydd
2. ymchwilio i adroddiadau neu honiadau o dorri cytundebau deiliadaeth a nodwyd
3. penderfynu a allai'r ymddygiad yr adroddwyd amdano fod yn achos o dorri cytundeb
4. gweithio gyda sefydliadau perthnasol sy'n rhan o'r cytundeb deiliadaeth
5. asesu'r risgiau i chi eich hun a'ch sefydliad mewn perthynas â gweithgareddau ymchwilio a chymryd camau perthnasol i liniaru'r rhain
6. cychwyn a chynnal ymchwiliadau ffurfiol i achosion o dorri cytundeb a nodwyd yn unol â'r gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
7. cymryd camau i wirio gwybodaeth a geir o ffynonellau lle mae adroddiadau'n gwrthdaro
8. rheoli sefyllfaoedd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol lle mae cwsmeriaid yn mynd yn sarhaus neu'n ymosodol
9. defnyddio'r wybodaeth a gafwyd trwy ymchwiliadau i benderfynu a oes amodau wedi'u torri
10. pennu'r ystod o opsiynau sydd ar gael i'ch sefydliad, yn seiliedig ar gyfyngiadau cyfreithiol a gweithredol perthnasol
11. gweinyddu'r camau gofynnol i ddatrys y broblem yn unol â gweithdrefnau sefydliadol a chyfyngiadau cyfreithiol perthnasol
12. cyfeirio at uwch-gydweithwyr os yw'r penderfyniad y tu hwnt i'ch awdurdod
13. cadw cofnodion o'ch ymchwiliadau a'ch camau gweithredu yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
14. hysbysu cwsmeriaid a sefydliadau perthnasol o'ch penderfyniadau a'ch camau gweithredu yn unol â'ch polisi a'ch gweithdrefnau sefydliadol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. nodwyd o dorri cytundebau deiliadaeth
2. hawliau a chyfrifoldebau perthnasol cwsmeriaid o dan gytundebau deiliadaeth
3. sut i gyfathrebu â'r cwsmeriaid a'r sefydliadau perthnasol sy'n rhan o'ch ymchwiliad
4. y ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â throsedd, anhrefn cyhoeddus, ymddygiad gwrthgymdeithasol, iechyd a diogelwch a rheoliadau tân
5. y mathau o risgiau y gellir eu cysylltu ag ymchwilio i achosion posibl o dorri cytundeb
6. sut i asesu a lleihau risg i chi eich hun ac i eraill
7. yr opsiynau sydd ar gael i chi wrth ddelio â thorri cytundeb
8. y gweithdrefnau sefydliadol a chyfreithiol perthnasol sy'n ymwneud â'ch camau gweithredu
9. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
10. y gofyniad i gofnodi gwybodaeth yn gywir trwy gydol y prosesau ymchwilio a gwneud penderfyniadau

INSHOU20

Ymchwilio i achosion a nodwyd o dorri cytundebau deiliadaeth

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH309
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu